WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 01 Mehefin 2017

Manylion Cwmnïau sy'n gysylltiedig â Chwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd

Rydym bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth, a nodwyd yn eich llythyr ar 2 Mai 2017, am **'fanylion y naw cwmni a oedd yn gysylltiedig â chyfranddalwyr Cwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd'.**

Dyfynnwyd paragraff 3.24 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, 'Cyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru yn eich cais, gan gynnwys, '*Rydym wedi adnabod naw perthynas o'r fath rhwng unigolion a chwmnïau y gwnaed taliadau gydag arian cyhoeddus iddynt'.*

Dylwn esbonio na fwriadwyd i'n cyfeiriad at '*naw perthynas o'r fath rhwng unigolion a chwmnïau*' gyfleu bod naw cwmni yn gysylltiedig â hyn. Yn lle hynny, mae'r ffigur o naw yn cyfeirio at gyfuniad o unigolion a chwmnïau. Saith cwmni y cyfeirir atynt mewn gwirionedd. Dyma eu henwau a'u rhifau cwmni:

- Aventa Capital Partners Ltd, 07853817
- Stephenson Harwood LLP, OC373597
- Insight in Infrastructure Ltd (I3), 07790189
- Shaun Meadows Marketing Ltd, 08128731
- Barton Communications Ltd, 05293199
- Kalergo Ltd, 08809384
- Altitude Aviation Advisory Ltd, 08505044

Nid wyf wedi cynnal unrhyw esemptiadau yn gysylltiedig â'ch cais, ond rhowch wybod os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch ein hymdriniaeth â'r cais hwnnw.

Yn gywir